



Adroddiad Cyfarfod

11:03:15

Dathlu 40!

Dathlu Gŵyl Ddewi a phenblwydd y gangen yn ddeugain oed fu hanes y gangen mis Mawrth. Yr oedd y Neuadd Goffa wedi ei haddurno gan y swyddogion ac yr oedd awyrgylch hyfryd yno.

Mair Price, ein llywydd oedd yn llywio'r noson, a chroesawodd ein llywydd Cenedlaethol Meryl Davies, Dinas, Pwllheli. Cafwyd anerchiad byr ganddi.

Braf oedd cael cwmni dwy gyn-aelod sef Nia P. Jones (Stad Eryri gynt), ac Ann Hopcyn o Gaernarfon.

Cawsom wledd yn y lluniaeth a baratowyd gan Cerid McKinnon a'i staff (Pryd i Bawb, Llanrug)

Wedi hyn, tro'r delynores a'r gantores, Gwenan Gibbard oedd ein diddori a chawsom ganddi berfformiadau ar y delyn, unawdau cerdd dant a chaneuon gwerin. Mwynhaodd pawb ei pherfformiadau swynol a'i hanwyldeb o'u cyflwyno. Noddwyd Gwenan gan Noson Allan, Cyngor Celfyddydau Cymru.

Anwylid Wyn Jones, is-drysorydd y pwyllgor oedd wedi paratoi y gacen hardd ar ein cyfer. Wedi torri'r gacen gan y llywyddion fe ddosbarthwyd darn i bawb. Mair Read ac Anita oedd yn gofalu am y gwin, a chynigwyd llwnc destun i'r gorffennol a'r dyfodol gan Meryl.

Yr oedd arddangosfa wedi ei gosod yng nghefn y neuadd oedd yn cynnwys pob rhaglen dros y deugain mlynedd, hefyd lluniau, cofnodion a llyfrau lloffion. Diolch i Beti Owen ac Eirlys Sharpe am y deunydd. Gydol y nos yr oedd sgrin deledu ymlaen wedi ei drefnu gan Meic a Jen Roberts o Gwmni Delwedd, yn dangos lluniau o'r aelodau dros y blynyddoedd. Yr oedd gwen a thristwch yn y gwyllo.

Darllenodd Mary Wyn Jones, gwraig Richard Llwyd Jones bedair englyn i'n cyfarch a'n llongyfarch, ac hefyd cafwyd englyn gan Jon Meirion o Langrannog, sef brawd Anwylid.

Her i'n hiaith gymylau'r nos - i wthio'n

ddwyieithog ein hethos.

Eiriau rhwydd sy'n duo'r rhos,

Lwyd wedd na wel y diddos.

Mynnu safon mewn safiad - yn eich bro

yw'ch braint, rhoi arweiniad

Dros yr iaith, golud mudiad;

Hyn yw pris mynnu parhad.

Hyder doe yw pedwar deg, - mewn hanes

mae'n ennyd 'di hedeg.

Iaith ar daith, o'i thrin yn deg,

I'w chynnal, rhoi ychwaneg.

Heno, goleui'r dunos - ac angerdd

y gangen yw'r achos.

Hir yw'r nych drwy oriau'r nos,

Y Wawr sy'n mynnu aros.

R.L.L. Jones

Ymroddiad triw i'r lliwiau - a'r Gymraeg

Ym mraint yr aelodau;

A rhuddin gweithgareddau

Yn bur a hael i'w barhau.

Jon Meirion

Diolch i'r ddau fardd.

Yn dilyn hyn bu'r aelodau yn hel atgofion, difyr a doniol. Pwysleisiodd Ann Hopcyn cymaint o hwyl a chyfeillgarwch yr oeddem wedi ei gael dros y blynyddoedd.

Wedi noson hynod bleserus, daeth yn dro'r diolchiadau. Diolchodd Mair i bawb oedd wedi cyfrannu mewn unrhyw fodd at lwyddiant y noson. Cyflwynwyd blodau i Mair gan Elizabeth. Trwy garedigrwydd Edwina cyflwynwyd trefniant o flodau hardd i Meryl, Gwenan, Jen a Rita. Diolch Edwina. Diolchwyd i Mair Williams, y trysorydd ac i Rita am gyd-lynu popeth.

Da oedd deall fod Manon, merch Anne Elis yn gwella ac anfonwyd cofion at Barry, mab-yng-nghyfraith Elizabeth, oedd wedi derbyn triniaeth. Cydymdeilwyd ac Eleri Warrington a'r teulu o golli mam a nain annwyl. Da iawn yw clywed fod Bet yn gwella.